




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Tachwedd 2016



Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Cynulleidfa

Gweithlu addysgu ac ymarferwyr ysgolion cynradd, ymarferwyr mewn lleoliadau a ariennir i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; partneriaid llywodraeth a chenedlaethol, gan gynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau'r gweithlu ac awdurdodau esgobaethol.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi camau gweithredu i gefnogi a rhannu dysgu ar arfer effeithiol a datblygiad staff parhaus, gan gynnal momentwm wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

Camau i'w cymryd

Mae camau penodol wedi'u nodi ar gyfer rhanddeiliaid unigol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Cwricwlwm

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: foundationphaseinfo@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn

www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol (2015); *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol, Medi 2013 – Mawrth 2014* (2014); *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiedig 2015)* (2015)

Gellir dod o hyd rhagor o wybodaeth ar y Cyfnod Sylfaen ar-lein yn

www.llyw.cymru/cyfnodsylfaen

Cynnwys

Rhagair y Gweinidogion	2
Cyflwyniad	4
Y cyd-destun	4
Sail y dystiolaeth	5
Y cynllun a'r cwricwlwm newydd	6
Y pedwar diben	7
Egwyddorion addysgeg	8
Y pedwar galluogydd	9
Symud y cynllun ymlaen: trefniadau llywodraethu	9
Symud y cynllun ymlaen: cyfathrebu	10
Symud y cynllun ymlaen: trefniadau monitro	10
Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen	11
1. Cwricwlwm ac asesu	11
2. Dysgu proffesiynol	13
3. Lleihau bylchau mewn cyflawniad	15
4. Rheoleiddio ac arolygu	17

Rhagair y Gweinidogion

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (Llywodraeth Cymru, 2016) yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau mwy o swyddi, a rheiny'n swyddi da, drwy greu economi gryfach a thecach, drwy ddiwygio a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus, a thrwy ddatblygu Cymru unedig, Cymru gysylltiedig a Chymru gynaliadwy. Mae ein ffyniant a'n sefydlogrwydd yn y dyfodol yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd pobl Cymru. Mae ein diwygiadau i'r system addysg yn canolbwyntio ar godi safonau, cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y dysgwyr tlotaf a'u cyfoedion, a hyrwyddo arweinyddiaeth gref a chydweithio da. Fel rhan o sicrhau ein hymrwymiad i ddarparu'r dechrau gorau posibl i blant yng Nghymru, bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Cyfnod Sylfaen yn parhau.

Mae'n adeg gyffrous i addysg yng Nghymru. Mae yna fomentwm newydd sy'n cael ei yrru gan ein diwygiadau, ac sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfleoedd, trwy gwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol, i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt i ddod yn ddysgwyr gydol oes. Rydym yn hynod o falch o'r Cyfnod Sylfaen a'i ddull o addysgu a dysgu sydd wedi ei nodi gan ymarferwyr fel cryfder sylweddol yn ein harfer addysgol cyfredol yng Nghymru. Mae tystiolaeth dda i ddangos bod cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, lle y mae'n cael ei gyflwyno'n dda, yn codi cyrhaeddiad pob plentyn, gyda gwelliannau o ran presenoldeb, llythrennedd, rhifedd a lles cyffredinol dysgwyr mewn ysgolion. Bydd llawer o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir i gyflawni'r Cyfnod Sylfaen, yn enwedig dysgu drwy brofiad, yn cael eu hymestyn ar draws y cwricwlwm newydd. Mae'n bwysig felly ein bod yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni'r Cyfnod Sylfaen er mwyn inni allu seilio gweithrediad y cwricwlwm newydd ar arferion da.

Mae Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen hwn yn nodi dull cenedlaethol i barhau i wella'r ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu a'i ddarparu yn ein hysgolion ac ysgolion meithrin nas cynhelir a ariennir, wrth i ni adeiladu tuag at y datblygiadau cwricwlwm newydd. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r amserlen ar gyfer sicrhau bod fframwaith y cwricwlwm ar gael i leoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2018 ac ar waith yn llawn o 2021. Mae hefyd yn nodi'r camau eang, lefel uchel i gefnogi a rhannu dysgu ar arfer effeithiol a datblygu staff parhaol, tra'n cynnal momentwm wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn y cyfamser.

Mae'n rhaid i lawer o bartion gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn i ni ddarparu'r addysg blynyddoedd cynnar gorau posibl i'n plant. Rydym yn gobeithio bydd y rheini ohonoch a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflwyno'r cynllun hwn yn achub ar y cyfle i ymroi'n llawn tuag at ei gyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Rydym yn siŵr y byddwch yn cytuno â ni bod angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau llwyddiant a lles pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru at y dyfodol, a'u bod yn haeddu dim llai na dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf.



A handwritten signature in black ink that reads "Alun Davies".

Alun Davies
Y Gweinidog dros Ddysgu Gydol
Oes a'r Iaith Gymraeg



A handwritten signature in black ink that reads "Kirsty Williams".

Kirsty Williams
Ysgrifennydd y Cabinet dros
Addysg

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen hwn yn amlinellu dull cenedlaethol Llywodraeth Cymru i wella'n barhaus y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno yn yr ysgolion a lleoliadau a ariennir yng Nghymru. Nod y cynllun yw sicrhau cysondeb yn y modd mae addysg y Cyfnod Sylfaen o safon yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Mae'r cynllun yn cynnwys:

- y cefndir o ran pam y mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r cynllun
- sut bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu fel rhan o ddatblygiad y trefniadau cwricwlwm newydd i Gymru
- camau gweithredu lefel uchel a fydd yn ofynnol mewn pedwar maes strategol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir o'r cynllun.

Y cyd-destun

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ymchwil ryngwladol ar yr ymagweddau mwyaf effeithiol tuag at addysg a gofal plentyndod cynnar¹. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu:

- bod addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel yn un o nodweddion allweddol y math o system addysg ragorol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w chreu yng Nghymru
- gall darpariaeth o'r fath leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chefnidir a statws economaidd-gymdeithasol rhieni a chael effaith gadarnhaol ar dwf a ffyniant economaidd.

Y Cyfnod Sylfaen, a gafodd ei dreialu yn 2004 ac yna'i gyflwyno gam wrth gam gan weithredu'n llawn o 2011 ymlaen, yw cwricwlwm addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer plant tair i saith oed. Mae'n mabwysiadu ymagwedd tuag at ddysgu ac addysgu sydd wedi'i gynllunio i annog plant i ddod yn feddylwyr annibynnol gydag agwedd gadarnhaol at ddysgu.

Gan wyro oddi wrth y dull mwy ffurfiol o ddysgu ac addysgu, sy'n seiliedig ar gymhwysedd, mae'r Cyfnod Sylfaen yn diwallu anghenion pob plentyn trwy ddysgu datblygiadol, trwy ddysgu trwy brofiad a thrwy ddysgu gweithredol. Trwy gyfrwng gweithgareddau difyr sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gall plant ymarfer a chyfnerthu eu sgiliau, arbrofi gyda syniadau, defnyddio eu creadigrwydd a'u dychymyg, mentro, datrys problemau, a gwneud penderfyniadau yn unigol, yn ogystal â mewn grwpiau bach a mawr.

¹ Gweler, er enghraifft, yr *Early Years Literature Review* (Saesneg yn unig) a gyhoeddwyd yn 2014 gan The Centre for Research in Early Childhood (www.crec.co.uk).

Sail y dystiolaeth

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cyfnod Sylfaen, fe wnaeth Lywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol tair blynedd o hyd² ac archwiliad annibynnol³. Mae canlyniadau'r ddau adolygiad hyn wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol ac roedd yr adroddiadau yn awgrymu ar y cyfan:

- lle y mae'r Cyfnod Sylfaen **yn cael ei weithredu'n dda**, mae'n codi cyrhaeddiad **pob** plentyn
- bod tystiolaeth gadarnhaol i ddangos bod y Cyfnod Sylfaen yn gysylltiedig â **gwelliannau mewn presenoldeb, llythrennedd, rhifedd a lles cyffredinol dysgwyr yn yr ysgolion**.

Gwelwyd pwyslais pellach ar y gefnogaeth i effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen gan yr Athro Graham Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015). Fodd bynnag, mae yna amrywiaeth o ran gweithredu o fewn a rhwng lleoliadau ac ysgolion.

Rhoddir pwyslais arbennig yn yr archwiliad a'r gwerthusiad ar yr angen i wella cysondeb o safbwynt cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar draws lleoliadau ac ysgolion yng Nghymru ac, er bod gwelliant cyffredinol yng nghyrhaeddiad pob plentyn, nododd y gwerthusiad annibynnol na fu unrhyw effaith weladwy ar leihau anghydraddoldebau yn y lleoliadau⁴ a'r ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaeth⁵.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn amlygu efallai na fydd hyn yn syndod o ystyried y derbynnir ar y cyfan bod ymyriadau wedi'u canolbwyntio a'u targedu yn fwy priodol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol nag ymyriadau cyffredinol fel y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllun hwn, felly, hefyd yn cynnwys camau penodol wedi'u targedu i fynd i'r afael ag effaith anghydraddoldeb ar gyflawniad plant.

Er mwyn adeiladu ar yr hyn y mae lleoliadau ac ysgolion eisoes wedi'i gyflawni, mae'r adroddiadau yn gwneud nifer o argymhellion i ddatblygu arfer a darpariaeth y Cyfnod Sylfaen ymhellach.

² Mae'r gyfres o adroddiadau gwerthuso ar gael yn gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?lang=cy

³ *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol, Medi 2013 – Mawrth 2014* (2014) (gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/stocktake-of-the-foundation-phase-final-report/?skip=1&lang=cy)

⁴ Mae 'lleoliadau' yn golygu ysgolion meithrin preifat, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a lleoliadau eraill sy'n cael eu cymeradwyo a'u hariannu gan awdurdodau lleol i gyflawni hawl plant tair a phedair blwydd oed i addysg gynnar Cyfnod Sylfaen.

⁵ Roedd ystadegau a gyhoeddwyd ar ôl i'r adroddiad gwerthuso terfynol ymddangos, fodd bynnag, yn dangos gostyngiad yn y bwlch rhwng cyrhaeddiad y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Gallwch ddod o hyd i'r ystadegau hyn o dan *Cyrhaeddiadau a'r hawl i brydau am ddim* (2015) yn gov.wales/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy

Gellir crynhoi'r rhain fel rhai lle mae angen gwelliannau yn y meysydd canlynol.

- › Dysgu a datblygiad proffesiynol.
- › Arweinyddiaeth.
- › Cyflawni'r cwricwlwm ac asesu.
- › Arolygu a rheoleiddio.
- › Goresgyn effaith tlodi a nodweddion eraill bod yn agored i niwed.
- › Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a theuluoedd wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a darparu mwy o wybodaeth ar eu cyfer.
- › Darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Y cynllun a'r cwricwlwm newydd

Un o argymhellion allweddol yr archwiliad oedd y dylid datblygu cynllun gweithredu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn cefnogi gweithrediad parhaus ac atgyfnerthiad arferion da ac effeithiol ar draws y cwricwlwm. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn ac mae'n parhau'n ymrwymedig i'r Cyfnod Sylfaen a'r rôl hanfodol sydd ganddo wrth greu'r system addysg ragorol yr ydym yn ei hadeiladu ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau, wrth gynllunio a datblygu trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd, y bydd y Rhwydwaith Arloeswyr, grŵp o ysgolion o bob cwr o Gymru, yn ystyried yn llawn yr egwyddorion sy'n sail i gwricwlwm ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen – dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol, dysgu trwy brofiad a dysgu gweithredol.

Un ystyriaeth allweddol wrth gyflawni'r cynllun yn effeithiol fydd sicrhau ei fod yn cyd-fynd â model cyflwyno penodol y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn cynnwys cydnabod rôl hanfodol y sector nas cynhelir o ran darparu addysg gynnar ar gyfer plant tair a phedair oed a rôl ehangach cynorthwywyr addysgu o'i gymharu â sut y darperir y cwricwlwm ar gyfer plant hŷn.

Sefydlwyd grŵp strategol, Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen, sy'n cynnwys arbenigwyr blaenllaw'r blynyddoedd cynnar o bob rhan o Gymru a'r DU, ac sy'n adrodd i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd eu gwaith gan grwpiau gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys detholiad eang o ymarferwyr, academyddion, yr Arolygiaethau⁶ a swyddogion polisi addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, roedd yr Athro Graham Donaldson⁷ hefyd yn cynnal adolygiad annibynnol llawer ehangach o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y Cyfnod Sylfaen ei nodi gan yr Athro Donaldson fel cryfder penodol yn y cwricwlwm yng Nghymru, a dywedodd fod llawer i'w ddysgu ohono wrth i ni ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

⁶ Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

⁷ *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015) (gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?lang=cy)

Mae mabwysiadu ei argymhellion ynghyd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg gychwynnol i athrawon⁸ a gwella'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i'r proffesiwn addysg yn rhaglen ddiwygio fawr o fewn addysg yng Nghymru.

Bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2016, yn cwmpasu pob oedran yn y cwricwlwm, gyda'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ystyried wrth ei lunio. Bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn ystod ei weithrediad cynnar a bydd y broses hon yn cynnwys ystyried sut mae lleoliadau ac ysgolion wedi gallu ei roi ar waith ochr yn ochr â darpariaeth addysgeg y Cyfnod Sylfaen ac a fydd angen unrhyw fireinio.

Bydd yn cymryd amser i ddatblygu'r cwricwlwm newydd – a'r nod yw bod fframwaith y cwricwlwm ar gael i leoliadau ac ysgolion erbyn mis Medi 2018 i'w ddefnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu o 2021 ymlaen⁹.

Yn y cyfamser, mae cynnal momentwm wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn hanfodol drwy rannu arfer a darpariaeth effeithiol a datblygiad proffesiynol parhaus.

Wrth iddo gael ei weithredu bydd y cynllun yn:

- cael ei ddatblygu a'i addasu ymhellach i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â dyfodiad y cwricwlwm newydd¹⁰, y diwygiadau i addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol
- parhau i adlewyrchu tystiolaeth ymchwil presennol a newydd
- parhau i fanteisio ar arfer effeithiol a nodir.

Y pedwar diben¹¹

Bydd pedwar diben y cwricwlwm newydd arfaethedig yn *Dyfodol Llwyddiannus* wrth wraidd popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ac maent eisoes wedi'u hadlewyrchu yn arfer effeithiol cyfredol y Cyfnod Sylfaen. Dylai dysgwyr ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus.

Mae'r cynllun yn amlinellu y dylai pob lleoliad ac ysgol gryfhau eu harfer a'u haddysgeg Cyfnod Sylfaen mewn perthynas â'r pedwar diben hwn.

⁸ *Addysgu Athrawon Yfory* (Llywodraeth Cymru, 2015) (gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-final.pdf)

^{9 10 11} *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015) (gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf)

Egwyddorion addysgeg

Dylai'r pedwar diben gael eu cefnogi gan egwyddorion addysgeg. Mae Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu set o egwyddorion trwy fireinio rhai a ddefnyddiwyd yng ngwerthusiad y Cyfnod Sylfaen, ac mae hefyd wedi ystyried y rhai a gynigiwyd gan yr Athro Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus* a thystiolaeth ymchwil arall. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, dylai'r egwyddorion addysgol hyn ganolbwyntio ar:

y plentyn:

- › yn gwneud dewisiadau, cyfranogi, ymwneud, cychwyn a chyfeirio ei ddysgu ei hun dros gyfnod o amser
- › yn dysgu o weithgareddau archwiliadol ac ymarferol yn weithredol trwy brofiad personol
- › yn cael ei herio a'i gefnogi'n briodol gan yr oedolion a'r amgylchedd dysgu, fel bod cynnydd da yn cael ei wneud

amgylchedd dysgu:

- › sy'n darparu llif rhwng gweithgareddau parhaus, wedi'u cyfoethogi sydd â ffocws, a leolir tu fewn a thu allan, sy'n adlewyrchu ac yn ennyn diddordeb plant
- › sy'n caniatáu mynediad i blant at adnoddau sy'n eu galluogi i arfer dewis a datblygu annibyniaeth yn eu dysgu
- › sy'n galluogi plant i gymhwyso, defnyddio, cyfnerthu ac ymestyn eu sgiliau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- › sy'n cynnwys cyfleoedd i blant fod yn weithgar yn gorfforol ac yn wybyddol yn ogystal â chael 'amser tawel' ar gyfer myfyrdod a meddwl

ymarferwyr:

- › sy'n annog y plentyn i feddwl am eu profiadau dysgu a myfyrio arnynt er mwyn ymestyn eu dysgu pan fo hynny'n briodol
- › sy'n cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n ddiddorol iddynt, sy'n briodol o ran datblygiad, sy'n seiliedig ar arsylwi ac asesu galluoedd plant yn rheolaidd
- › sy'n mynd ati'n ddyfal i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yng nghymuned y lleoliad/ysgol, gan eu gweld fel partneriaid yn addysg eu plant
- › sydd yn ceisio datblygu eu hunain yn broffesiynol yn barhaus, gan rannu a dysgu o arfer rhagorol ac effeithiol a gweithio gydag ymarferwyr eraill ar draws Cymru a thu hwnt.

Y pedwar galluogydd¹²

Bydd y cynllun yn cael ei gynnal gan y pedwar galluogydd a ganlyn.

› Gweithio mewn partneriaeth

Fel rhan o'r broses o newid a llywodraethu a nodir yn *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*, bydd Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesol¹³, awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch, Llywodraeth Cymru, Estyn, yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC), y sector nas cynhelir a'r sector gwirfoddol i gefnogi, monitro ac adolygu'r cynllun fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

› Gweithio cadarn rhwng ysgol (a lleoliad) ac ysgol (a lleoliad)

Bydd y ffordd yma o weithio'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi'i osod yn gadarn ar lefel lleoliad ac ysgol. Dylai dynnu ar y safonau a'r disgwyliadau uchel ac arferion cydweithredol sydd eisoes ar waith, sydd wedi meithrin y sgiliau proffesiynol o ansawdd uchel sydd eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm. Bydd yr arfer a'r ddarpariaeth yma'n cael eu rhannu gyda'r Ysgolion Arloesol sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd.

› Arweinwyr sy'n ysbrydoli

Arweinyddiaeth effeithiol ac ysbrydoledig mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau uchel a pharodrwydd i arwain dysgu gydag eraill.

› Cynwysoldeb

Cyfnod Sylfaen i **holl** blant Cymru sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gau'r bwlch cyflawniad ar gyfer plant sy'n profi gwahanol fathau o anfantais, anghydraddoldeb neu fregusrwydd.

Symud y cynllun ymlaen: trefniadau llywodraethu

Bydd Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen yn dylanwadu ar waith Ysgolion Arloesol, awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol, Llywodraeth Cymru ac eraill, i gefnogi, monitro ac adolygu'r cynllun fel rhan o ddatblygiad y cwricwlwm newydd.

Caiff rhanddeiliaid eu hysbysu'n rheolaidd am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynnydd y cynllun wrth i ddatblygiad y cwricwlwm newydd fynd rhagddo a bydd Llywodraeth Cymru'n croesawu adborth a chaiff newidiadau neu ddiwygiadau eu gwneud yn ôl y gofyn. Bydd hyn yn rhan o'r strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu ar gyfer y cynllun. Bydd diweddariadau yn cael eu cyfleu trwy Dysg, drwy awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ati, a bydd cyhoeddiadau eraill a gwybodaeth am ddatblygiadau allweddol, dogfennau a chynnydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru¹⁴.

¹² *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015) (gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf)

¹³ *Ysgolion Arloesol* (Llywodraeth Cymru, 2015) (gov.wales/docs/dcells/publications/150630-pioneer-schools-cy.pdf)

¹⁴ www.llyw.cymru/cwricwlwmigymru

Symud y cynllun ymlaen: cyfathrebu

Er mwyn cefnogi cyflwyniad cyson y Cyfnod Sylfaen wrth i Lywodraeth Cymru symud tuag at ddatblygu cwricwlwm newydd, bydd strategaeth gyfathrebu effeithiol yn cael ei datblygu er mwyn:

- › ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr
- › cefnogi hyfforddiant a rhannu gwybodaeth
- › amlygu arfer effeithiol
- › rhannu awgrymiadau am weithgareddau ac adnoddau
- › cefnogi cynllunio ac arsylwi ac asesu
- › cefnogi cyfathrebu ar y cwricwlwm newydd
- › hyrwyddo mentrau.

Bydd hyn yn cynnwys:

- › defnydd gwell o linellau cyfathrebu fel ffeithluniau, cyfryngau cymdeithasol ac offer ar-lein
- › pob adnodd, fel y rhestrir uchod, i gael eu haddasu i'w defnyddio gan ymarferwyr, rhieni/gofalwyr ac eraill o fewn y sector.

Symud y cynllun ymlaen: trefniadau monitro

Caiff cynnydd yn erbyn camau a osodir yn y Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen hwn eu monitro gan Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen. Bydd gofyn i gonsortia rhanbarthol a chyrff sy'n cynrychioli lleoliadau nas cynhelir ddarparu adroddiadau bob chwe mis ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau y byddant yn eu cyflawni.

Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen

Nododd Grŵp Arbenigol y Cyfnod Sylfaen bedwar maes strategol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

- Cwricwlwm ac asesu.
- Dysgu proffesiynol.
- Lleihau bylchau mewn cyflawniad.
- Rheoleiddio ac arolygu.

Mae angen nifer o gamau gweithredu ym mhob maes, manylir ar y rhain isod.

1. Cwricwlwm ac asesu

Mae datblygu ymhellach sut y cyflwynir cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn erbyn ei egwyddorion addysgol yn allweddol i wella deilliannau i blant. Bydd gwelliannau ar yr agwedd hon yn y tymor byr yn helpu i adeiladu'r sail ar gyfer datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae dulliau asesu ar gyfer dysgu yn parhau'n hanfodol i gefnogi dilyniant ac anghenion dysgu a datblygu plant.

Mae'r maes hwn o'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i ddatblygu ac ymgorffori arfer ac ymagweddau effeithiol at:

- gyflwyno'r trefniadau cwricwlwm ac asesu yn gyson ar draws y Cyfnod Sylfaen wrth i Lywodraeth Cymru ymaddasu i ofynion y cwricwlwm newydd
- cymhwysedd digidol
- llythrennedd a rhifedd
- y Gymraeg a diwylliant Cymru
- asesu ar gyfer dysgu.

Pwyntiau gweithredu

Pwyntiau gweithredu tymor byr (erbyn Medi 2017)

1. Lleoliadau ac ysgolion i ymgorffori arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen fel y mae wedi ei amlinellu yn yr egwyddorion addysgeg (tudalen 8 o'r ddogfen hon) yn eu gwaith cynllunio a'u darparu, a chynllunio ar gyfer sut y byddant yn ymgorffori'r pedwar diben sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd.
2. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i barhau i ddatblygu dulliau o fynd i'r afael â chefnogaeth ysgol (a lleoliad) i ysgol (a lleoliad) er mwyn sicrhau bod y dulliau addysgegol effeithiol hyn yn cael eu hymgorffori ledled Cymru.

3. Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, i ystyried y dull gorau o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen fel rhan o'r cynnig gofal plant newydd i rieni/gofalwyr sy'n gweithio.
4. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i wella'r cydweithio rhwng timau Dechrau'n Deg a lleoliadau ac ysgolion, gan gynnwys cynllunio pontio a dilyniant trwy rannu arfer rhagorol a datblygiad proffesiynol.
5. Consortia rhanbarthol i nodi a rhannu ymarfer asesu ar gyfer dysgu effeithiol er mwyn ymgorffori asesu ar gyfer dysgu ymhellach o fewn y Cyfnod Sylfaen.
6. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i nodi a rhannu arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen gyda'r holl ymarferwyr trwy gymorth ysgol (a lleoliad) i ysgol (a lleoliad), cyfryngau cymdeithasol, Dysgu Cymru, Hwb, offer digidol eraill a thrwy gynadleddau'r Cyfnod Sylfaen. Arfer effeithiol yn y meysydd pwysig canlynol i'w nodi a'i rannu gyda'r holl ymarferwyr gan ddefnyddio'r dulliau a nodir uchod:
 - darpariaeth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
 - cymhwysedd digidol
 - llythrennedd
 - rhifedd
 - Proffil y Cyfnod Sylfaen a'i rôl barhaus wrth sicrhau bod asesu arsylwadol yn parhau'n amlwg o fewn asesiad y Cyfnod Sylfaen
 - dulliau asesu ar gyfer dysgu
 - ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau.

Pwyntiau gweithredu tymor canolig (erbyn Medi 2018)

7. Lleoliadau ac ysgolion sydd ag arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen i helpu a llywio datblygiad y cwricwlwm newydd.
8. Pob lleoliad ac ysgol, wrth gyflwyno Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg, i wneud defnydd effeithiol a phriodol o adnoddau'r Gymraeg ar draws pob Maes Dysgu arall.
9. Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag arolwg o sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr i lywio datblygiadau yn y dyfodol.
10. Llywodraeth Cymru i ddarparu profion cyfrifiadurol ymaddasol yn lle profion darllen a rhifedd ar bapur i'w defnyddio gyntaf yn haf 2019.

2. Dysgu proffesiynol

Mae datblygu'r gweithlu yn arbennig o allweddol o ran gwella darpariaeth y Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn dal i fod yn fath cymharol newydd o gwricwlwm yng Nghymru ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod yna anghysondebau sylweddol mewn arfer. Mae corff eang o dystiolaeth hefyd yn dangos bod gwella ansawdd y gweithlu yn y blynyddoedd cynnar yn arbennig o bwysig ar gyfer gwella deilliannau i blant ac yn enwedig rheini o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r maes hwn o'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i:

- ddarparu dysgu proffesiynol o safon uchel a datblygu arweinyddiaeth
- sicrhau bod hyn yn seiliedig ar leoliad/ysgol a gweithio gyda lleoliadau/ysgolion, wedi'i hwyluso gan y consortia rhanbarthol.

Yr hyn a olygwn gan 'ddysgu proffesiynol o safon uchel' yw dysgu sy'n systematig, sy'n gynaliadwy ac sy'n drawsnewidiol. Hynny yw, dysgu proffesiynol sy'n cefnogi unigolion a grwpiau i:

- ddeall pryd y mae angen newid eu harferion eu hunain, a pham
- rhoi newid i'w harferion ar waith
- ystyried a yw'r newid yn llwyddiant, gan ystyried profiadau a deilliannau plant.

Pwyntiau gweithredu

Pwyntiau gweithredu tymor byr (erbyn Medi 2017)

11. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i sicrhau bod pob cyfle dysgu proffesiynol y Cyfnod Sylfaen ar gael i holl ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen, fel sy'n briodol i'w hanghenion.
12. Llywodraeth Cymru i weithio gyda chynghorwyr her y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod lleoliadau ac ysgolion yn asesu'n ddigonol lefelau sgiliau ac anghenion y rheini sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac yn cynnwys y mynediad priodol at ddysgu proffesiynol o fewn eu cynlluniau datblygu.
13. Consortia rhanbarthol i gryfhau rôl eu cynghorwyr mewn perthynas â dysgu proffesiynol mewn lleoliadau/ysgolion.
14. Consortia rhanbarthol i gynnwys hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg ym mhob cyfle dysgu proffesiynol.
15. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd dysgu proffesiynol y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hysbysebu'n eang, yn lleol ac yn genedlaethol.

16. Awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol i sicrhau bod ganddynt arbenigedd staffio priodol ar waith i arwain ar ddysgu proffesiynol o fewn y Cyfnod Sylfaen.
17. Llywodraeth Cymru i sicrhau bod astudiaethau achos o safon am arfer effeithiol ar gael ar Hwb.
18. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i adolygu'r adnoddau hyfforddi a chyfleoedd dysgu proffesiynol eraill sydd ar gael i ymarferwyr, gan gynnwys y rheini mewn rolau arwain, a rhannu arfer da a deunyddiau cyfredol, gan ddatblygu deunyddiau a dulliau diwygiedig lle bo angen. Bydd hyn yn cwmpasu dysgu proffesiynol ym maes datblygiad plant, arweinyddiaeth, profiadau o'r amgylchedd ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.
19. Llywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn unrhyw gynllun ar gyfer y gweithlu chwarae a gofal plant y blynyddoedd cynnar yng Nghymru¹⁵.

Pwyntiau gweithredu tymor canolig (erbyn Medi 2018)

20. Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dulliau dysgu proffesiynol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith yn systematig.

Pwyntiau gweithredu tymor hir (erbyn Medi 2019)

21. Sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod yn rhaid i bob rhaglen israddedig ac ôl-raddedig sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig gynnwys cyflwyno datblygiad plentyn yn dilyn ail-ddilysu cyrsiau. Lle mae cyrsiau wedi bod drwy'r broses hon yn ddiweddar, dylai cyfleoedd i ymgorffori datblygiad plentyn i mewn i gyrsiau presennol cael eu hystyried.

¹⁵ Bydd y cynllun yn gymwys i ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth dysgu, ond nid athrawon.

3. Lleihau bylchau mewn cyflawniad

Mae lleihau'r bwch yng nghyrrhaeddiad gwahanol grwpiau o blant yn parhau i fod yn amcan allweddol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r maes hwn o'r cynllun yn gofyn camau gweithredu i:

- sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn parhau i gyfrannu at gau'r bylchau mewn cyflawniad yn ogystal â chodi cyrrhaeddiad pawb
- canolbwyntio'n arbennig ar godi cyflawniad plant sy'n profi tlodi.

Pwyntiau gweithredu

Pwyntiau gweithredu tymor byr (erbyn Medi 2017)

22. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i hybu'r defnydd o'r dulliau a nodir yn y Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd (YGaTh)¹⁶ i leoliadau ac ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i weithio gyda theuluoedd fel partneriaid wrth i'w plant ddysgu a defnyddio ymgysylltu â theuluoedd fel modd o gynyddu cyrrhaeddiad a lles.
23. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i hyrwyddo mabwysiadu 'ethos meithrin' o fewn ysgolion a lleoliadau megis grwpiau anogaeth i blant a'u teuluoedd.
24. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) a lleoliadau ac ysgolion i annog rhieni a gofalwyr i gefnogi dysg eu plant gan gynnwys defnyddio llinyn 'parodrwydd i ddysgu' ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' Llywodraeth Cymru.
25. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau gydag ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen y gwyddys eu bod yn arbennig o effeithiol ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig gan gynnwys¹⁷:
 - canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar
 - gwrando a gweithredu ar 'lais y dysgwr'
 - gwaith mewn grwpiau bach sy'n gosod yr ymarferwyr gorau gyda grwpiau sy'n tangyflawni
 - gwneud defnydd effeithiol o ymarferwyr – athrawon a chynorthwywyr addysgu

¹⁶ Mae'r Pecyn Cymorth YGaTh (2016) ar gael ar wefan Dysgu Cymru. (learning.gov.wales/resources/browse-all/family-and-community-engagement-toolkit/?skip=1&lang=cy)

¹⁷ *Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar? Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar* (Llywodraeth Cymru, 2015) (learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150506-pdg-what-really-works-cy.pdf)

- › ymyriadau llythrennedd a rhifedd cynnar
- › datblygu hunan-reoleiddio'r plant
- › canolbwyntio ar ddysgu cymdeithasol ac emosiynol.

26. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i rannu arfer effeithiol o ran defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar draws yr holl leoliadau ac ysgolion trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan ystyried unrhyw argymhellion o'r gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar sy'n cael ei gynnal gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA).

Pwyntiau gweithredu tymor canolig (erbyn Medi 2018)

27. Lleoliadau/ysgolion i ddatblygu ymhellach arferion da o ran darparu cyfleoedd dysgu ar gyfer teuluoedd, yn enwedig yng nghyswllt llythrennedd a rhifedd a darpariaeth aml-asiantaeth ar y safle.
28. Llywodraeth Cymru i gefnogi lleoliadau ac ysgolion i ymwneud mwy â gwaith aml-asiantaeth gyda Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill er mwyn cefnogi plant a theuluoedd dan anfantais yn fwy effeithiol.
29. Consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (lle bo hynny'n briodol) i gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i wneud defnydd effeithiol o wybodaeth a geir trwy arsylwi ac asesu, gan gynnwys asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer adnabod yn gynnar y plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i gynllunio ymyriadau priodol, gan weithio, pan fo angen, gyda gwasanaethau arbenigol.
30. Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch i gynnwys arfer effeithiol ar godi cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig o fewn rhaglenni addysg athrawon cychwynnol, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth.
31. Llywodraeth Cymru i gynorthwyo lleoliadau, ysgolion, awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol i fonitro a hunanwerthuso eu cynnydd ar gau'r bylchau mewn cyflawniad.

4. Rheoleiddio ac arolygu

Mae arolygu'n bwysig o ran cynnal safonau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar draws lleoliadau ac ysgolion ond mae hefyd yn allweddol fel modd o nodi'r lleoliadau a'r ysgolion hynny sydd ag arfer da y gellid ei rannu'n eang ledled Cymru.

Mae'r maes hwn o'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod unrhyw drefniadau arolygu diwygiedig yn parhau i gyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen.

Pwyntiau gweithredu

Pwyntiau gweithredu tymor canolig (erbyn Medi 2018)

Estyn i ystyried y canlynol wrth wneud newidiadau i'w fframwaith arolygu.

32. Cynnal ffocws arolygu priodol ar y gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen, y safonau a gyflawnir gan blant a sut mae arweinyddiaeth yn cefnogi hyn.
33. Cynnal ffocws arolygu priodol ar y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i leoliadau ac ysgolion fel y gallant weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Dylai Estyn ac AGGCC ystyried y canlynol wrth wneud newidiadau i fframweithiau cyd-arolygu ar gyfer lleoliadau sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair a phedair oed.

34. Adlewyrchu canlyniadau'r cynllun peilot presennol o gyd-arolygu a darparu arweiniad arolygu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.